LANEq226

# Marchogaeth ceffylau rasio ar y ffordd neu hyfforddiant carlamu o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â marchogaeth ceffylau rasio ar y ffordd neu hyfforddiant carlamu, o dan oruchwyliaeth, ac yn unol â gweithdrefnau sydd wedi eu nodi.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl rasio yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl rasio, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. paratoi ceffylau rasio ar gyfer ymarfer arferol o dan oruchwyliaeth
4. cwblhau'r paratoadau perthnasol cyn dechrau marchogaeth
5. mynd ar gefn ac oddi ar gefn ceffylau rasio yn ddiogel
6. addasu osgo a chyflymder yn unol â'r amodau sy'n bodoli
7. dilyn gweithdrefnau ar gyfer marchogaeth ceffylau rasio ar ffyrdd, llwybrau i ac o hyfforddiant carlamu, bob amser
8. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y gofynion diogelwch ar y ffyrdd a'r adrannau perthnasol o Reolau'r Ffordd Fawr wrth farchogaeth ar ffyrdd
3. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. sut i baratoi ceffyl rasio ar gyfer ymarfer arferol ar y ffordd neu mewn hyfforddiant carlamu
5. sut i gynllunio'r llwybr
6. cyfrifoldebau marchogaeth mewn grwp ac ar eich pen eich hun
7. effaith y tywydd ar eglurder, arwyneb ac amodau'r ddaear a sut y gallai hyn effeithio ar farchogaeth
8. y camau i'w cymryd os bydd damwain/digwyddiad
9. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Paratoi'r canlynol:

- harneisiau
- llwybr
- safle mewn rhes

Ystyried pedwar o'r canlynol, wrth farchogaeth ar y ffordd neu i hyfforddiant carlamu:

- arwyneb a chyflwr y ddaear
- y tywydd
- defnyddwyr eraill y ffyrdd
- marchogaeth mewn grŵp
- eglurder

LANEq226

Marchogaeth ceffylau rasio ar y ffordd neu hyfforddiant carlamu o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq226 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; iechyd a lles anifeiliaid; ras; marchogaeth; carlamu; ffordd |